



SWANSEA
2014 IPC Athletics European Championships
ABERTAWE
Pencampwriaethau Athletau Ewrop 2014 yr IPC

30^{ain} Ionawr 2014

Dathlu 200 diwrnod i fynd gyda lansiad rhaglen yr ‘Hyrwyddwyr’

Heddiw (30^{ain} Ionawr 2014) rydym yn dathlu mai dim ond 200 diwrnod sydd i fynd nes bydd Pencampwriaethau Athletau Ewropeaidd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol - Abertawe 2014 - y gystadleuaeth Baralympaidd fwyaf erioed i gael ei chynnal yng Nghymru, yn dechrau. I dathlu'r achlysur hwn, lansiwyd rhaglen wirfoddoli'r 'Hyrwyddwyr' mewn digwyddiad ym Mhentref Chwaraeon Prifysgol Abertawe.

Yn y digwyddiad, gwelwyd y Paralympiaid a llysgenhadon Abertawe 2014, Aled Siôn Davies MBE a Josie Pearson MBE, yn ymuno â Chadeirydd y pwyllgor trefnu, Mr Paul Thorburn, i groesawu dewis y gwirfoddolwyr cyntaf i gofrestru gyda'r rhaglen.

Mae trefnwyr y Bencampwriaeth yn gobeithio recriwtio hyd at 1000 o wirfoddolwyr o bob cwr o Ewrop i helpu gyda llwyfannu'r digwyddiad, y cyntaf o'i fath i'w gynnal yn y DU. Mae'r ceisiadau wedi agor ar-lein heddiw yn www.Swansea2014.com ac mae gan y darpar 'Hyrwyddwyr' tan Fawrth 30^{ain} i ymgeisio.

Bydd yr 'Hyrwyddwyr' yn cael cyfle unwaith mewn oes i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddyletswyddau, o wirfoddolwyr cyffredinol yn helpu mewn lleoliadau i ddyletswyddau arbenigol gan gynnwys gyrwyr, cyfieithwyr a gweithredwyr cyfryngau.

Dywedodd Paul Thorburn, Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Abertawe 2014:

“Mae heddiw’n ddiwrnod eithriadol bwysig i’r digwyddiad, i’r ddinas ac i Gymru. Yr Hyrwyddwyr y byddwn ni’n eu recriwtio yn ystod y misoedd nesaf fydd un o elfennau pwysicaf Abertawe 2014, gan helpu i gyflwyno’r pencampwriaethau Para-athletau Ewropeaidd gorau erioed hyd yma, a sicrhau bod miloedd o athletwyr, swyddogion a gwylwyr yn cael profiad cwbl fythgofiadwy. Er ein bod yn croesawu ceisiadau o bob cwr o’r byd, rydyn ni am weld pobl Abertawe yn rhan o’r digwyddiad yma ac rydyn ni’n gobeithio y bydd cyfran fawr o’r Hyrwyddwyr yn dod o gymunedau lleol.”

Dywedodd y Paralympiad, Aled-Siôn Davies MBE, sy’n Llysgennad ar ran Abertawe 2014:

“Rydw i ar ben fy nigon bod Pencampwriaethau Athletau Ewropeaidd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol yn cael eu cynnal ar ein tir cartref ni yma yn Abertawe eleni ac, fel llysgennad ar gyfer y digwyddiad, rydw i’n gwybod y gallwn ni lwyfannu cystadlu o safon uchel a chreu hanes. Ond mae’n rhaid cael gwirfoddolwyr i wneud y digwyddiad yn un llwyddiannus – maen nhw’n dod ag egni ac ysbryd at y bwrdd, sy’n amhrisiadwy. Fe hoffwn i annog pawb i ystyried gwirfoddoli, oherwydd mae posib iddyn nhw fod yn rhan o rywbeth arbennig iawn.

Dywedodd y Prif Hyfforddwr Paralympaidd, Paula Dunn:

“Mae heddiw’n nodi carreg filltir arall ar y ffordd at Bencampwriaethau Ewropeaidd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol. Roedd criw gwych o wirfoddolwyr yn Lyon, gan helpu i greu Pencampwriaethau Byd hynod lwyddiannus i’r Pwyllgor y llynedd ac rwy’n siŵr y bydd yr un peth yn digwydd yn Abertawe 2014. Nid dim ond yr athletwyr sy’n gwneud pencampwriaethau, ond hefyd y bobl yn y cefndir, o’r gwirfoddolwyr i’r hyfforddwyr sy’n creu amgylchedd o safon byd.

“Mae Llundain 2012 wedi helpu i greu etifeddiaeth ar gyfer chwaraeon Paralympaidd ac rwy’n hyderus y gall Abertawe, ochr yn ochr â’r cystadlaethau para-athletig eraill sy’n cael eu cynnal ym mhob cwr o’r byd, helpu gyda dal ati i ddod o hyd i’r garfan nesaf o dalent.”

Mae’n rhaid i’r ymgeiswyr fod yn 18 oed neu’n hŷn i gymryd rhan, rhaid iddynt fod ar gael am ddeg diwrnod yn ystod cyfnod y Pencampwriaethau a bydd arnynt angen eu cludiant a’u llety eu hunain. Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei roi i’r holl ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd gwirfoddolwyr iau’n cael eu cynnwys drwy gyfrwng y rhaglenni sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys Llysgenhadon Ifanc Dinas a Sir Abertawe.

Cynhelir Abertawe 2014 ym Mhentref Chwaraeon Prifysgol Abertawe rhwng y 18^{fed} a'r 23^{ain} Awst eleni a bydd tua 600 o athletwyr gorau'r byd yn cystadlu yno am yr anrhydedd wrth iddynt anelu at gystadlu yng Ngemau Paralympaidd Rio yn 2016.

Cyflwynir y Pencampwriaethau gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, Chwaraeon Anabledd Cymru, Athletau Prydain, Athletau Cymru a Llywodraeth Cymru.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

I gael rhagor o wybodaeth am Abertawe 2014, cysylltwch â:

Jacqui Bowen – Ymholiadau cyffredinol – 01792 295050 / jacqui.bowen@admin.swan.ac.uk

Lucy Dominy – Ymholiadau'r Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol - +49 228 2097-159 /

lucy.dominy@paralympic.org

Abertawe 2014 fydd 4^{ydd} Pencampwriaethau Athletau Ewropeaidd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol, sydd wedi'u cynnal yn flaenorol yn Stadkanaal, yr Iseldiroedd, Espoo, y Ffindir ac Assen, yr Iseldiroedd. Mae disgwyl i'r Pencampwriaethau ddenu hyd at 1500 o athletwyr, swyddogion ac ymwelwyr o bob cwr o Ewrop a hyd at 15,000 o wylwyr drwy gydol y Pencampwriaethau.

Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol ymchwil o safon byd sydd wedi'i lleoli mewn parc hardd gyda golygfeydd ar draws Bae Abertawe, yn agos at Benrhyn Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU. Sefydlwyd y Brifysgol yn 1920 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnig tua 350 o gyrsiau israddedig a 100 o gyrsiau ôl-radd i 14,500 o fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd. Erbyn 2015, bydd gan y Brifysgol Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesi newydd i ategu Campws wedi'i uwchraddio ym Mharc Singleton. Ewch i www.Swansea.ac.uk. *Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig – Rhif 1138342.*

Chwaraeon Anabledd Cymru

Chwaraeon Anabledd Cymru yw'r prif sefydliad ar gyfer datblygu chwaraeon anabledd ledled Cymru, gan ddarparu cyfleoedd cynhwysol o lawr gwlad i lefel elitaidd. Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid bywydau pobl anabl gan ddefnyddio grym chwaraeon i wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.disabilitysportwales.com

UK Athletics

UK Athletics yw'r corff rheoli ar gyfer y prif chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd ym Mhrydain. Rydym yn cynrychioli Athletau Prydain, y bobl, yr athletwyr, y cefnogwyr, y tîm. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r gwledydd cartref er mwyn datblygu a meithrin pob maes yn y campau hyn, gan gynnwys perfformiad elitaidd, hyfforddi, cystadlaethau rhyngwladol mawr, a chystadlaethau a rhaglenni ar lawr gwlad mewn ysgolion a chlybiau.

Yn 2013, cynhaliodd Prydain ddwy o gystadlaethau Para-athletau mwyaf y byd gan y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol, gan gynnwys Rownd Derfynol Grand Prix gyntaf erioed Sainsbury's y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol yn Birmingham a Her Para-athletau Rhyngwladol Sainsbury's yng Ngemau Pen Blwydd llwyddiannus Sainsbury's yn y Stadiwm, Parc Olympaidd y Frenhines Elizabeth.

I gael rhagor o wybodaeth am Bencampwriaethau Athletau Ewropeaidd 2014 y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol, ewch i www.Swansea2014.com